

# Adeilad yr Wyddfa

*gan Angharad Williams*


Yn ddiweddar, mae cryn dipyn o sôn wedi bod ar y newyddion am yr adeilad sydd ar gopa'r Wyddfa, mynydd uchaf Cymru. Mae'r adeilad presennol wedi bod yno ers 1935 ac mae nifer o bobl yn dweud bod angen ei adnewyddu. Mae'r caffi, y siop a'r orsaf drên yn boblogaidd iawn gydag ymwelwyr.



©Hawlfraint y Goron: CBHC 2003-cs-2136 (1)

Dychmygwch eich bod chi'n bensaer (person sy'n cynllunio adeiladau).

Pa fath o adeilad hoffech chi ei weld ar gopa'r Wyddfa?  
Tynnwch lun eich cynllun yn y bocs isod.



Erbyn hyn, mae cynllun wedi cael ei dderbyn ar gyfer yr adeilad newydd ac mae'r gwaith o godi'r holl arian sydd ei angen yn dod yn ei flaen yn dda.

Ewch i [www.copar-wyddfa.co.uk](http://www.copar-wyddfa.co.uk) i weld y cynllun a gafodd ei dderbyn.

Ydych chi'n ei hoffi?

Ydy'r cynllun yn wahanol i'r un wnaethoch chi ei lunio?  
Os felly, ym mha ffordd?

Fedrwch chi feddwl am unrhyw ffordd i'w wella?

*E-bostiwch eich sylwadau neu awgrymiadau i Gwaith Maes trwy wasgu'r botwm cysylltu ar y dudalen gartref.*